



Y Prif Ymchwilyr:

Yr Athro Elizabeth Draper
PICANet

Department of Health Sciences,
College of Medicine, Biological Sciences and
Psychology,
University of Leicester, Centre for Medicine,
University Road, Leicester, LE1 7RH

0116 252 5468

Y Dr Roger Parslow
PICANet

Division of Epidemiology & Biostatistics
School of Medicine
University of Leeds
8.49 Worsley Building
Leeds, LS2 9JT

0113 343 4856

www.picanet.org.uk



UNIVERSITY OF
LEICESTER



UNIVERSITY OF LEEDS

Fersiwn 6.3 Rhagfyr 2016
©2016 Prifysgolion Leeds a Chaerlŷr

Os hoffech wybod mwy am
PICANet gallwch:

Siarad â'ch nyrs neu'ch doctor

Anfon neges ebost atom yn
picanet@leeds.ac.uk

Mynd i'n gwefan
www.picanet.org.uk

Neu

Ffonio'n Nyrs Ymchwil,
Caroline Lamming ar

0116 252 5414


Neu ysgrifennwch at Caroline:
crl4@leicester.ac.uk

Neu drwy'r post:

PICANet
Department of Health Sciences,
College of Medicine, Biological Sciences and
Psychology,
University of Leicester, Centre for Medicine,
University Road, Leicester, LE1 7RH

PICANet

Rhwydwaith Awdit Gofal Dwys Pediatrig



Taflen wybodaeth i blant sy'n cael eu
derbyn i ofal dwys pediatrig.

Beth yw uned gofal dwys pediatrig?

Dyma ward plant mewn ysbyty lle bydd llawer o ddoctoriaid a nyrsys arbennig yn gofalu am blant sy'n sâl iawn. Maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd i helpu pob plentyn. Mae'n cael ei nabod hefyd fel uned gofal dwys i blant.

Beth yw PICANet?

Prosiect yw PICANet sy'n cael ei ariannu gan y Llywodraeth a'r ysbytai, ac mae'n cael ei redeg gan Brifysgolion Leeds a Chaerlŷr.

Beth yw gwaith PICANet?

Mae PICANet yn casglu llawer o wybodaeth am y gofal i blant mewn unedau gofal dwys yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon. Rydyn ni hefyd yn casglu gwybodaeth os cewch eich symud i uned gofal dwys gwahanol.

Pam mae PICANet yn bwysig?

Mae arnon ni angen yr wybodaeth er mwyn ceisio gwella'r gofal i bob plentyn sy'n cael gofal dwys mewn uned i blant.

Pa wybodaeth sydd ei hangen?

Bydd gwybodaeth amdanoch chi, fel eich enw, eich pen-blwydd a'ch rhif ysbyty, yn ein helpu i ddilyn eich cynnydd wrth i bobl ofalu amdanoch mewn uned gofal dwys i blant. Rydyn ni hefyd yn casglu gwybodaeth fel y rheswm dros fod yn yr ysbyty a sut ofal sy'n cael ei roi ichi.

Sut mae'r wybodaeth yn cael ei chasglu?

Bydd doctoriaid a nyrsys yn rhoi gwybodaeth o'ch nodiadau ysbyty i mewn i gyfrifiadur yn yr ysbyty ac yna'n ei hanfon at Brifysgol Leeds, lle caiff ei chadw ar brif gyfrifiadur.

Mae PICANet yn casglu'r un wybodaeth am bob plentyn sy'n cael gofal mewn uned ddwys. Mae gwybodaeth yn cael ei chasglu am lawer o blant, dros 19,000 bob blwyddyn. Mae hyn yn golygu ein bod yn gallu edrych ar beth sy'n digwydd ledled y wlad ac nid yn eich ysbyty chi yn unig.

Beth sy'n digwydd i fy ngwybodaeth i?

Mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio i ysgrifennu adroddiadau sy'n helpu doctoriaid a nyrsys i benderfynu ar y ffordd orau i ofalu am blant sydd angen gofal dwys.

Fydd neb yn gwybod bod eich manylion chi yn yr adroddiad, oherwydd fyddwn ni ddim yn defnyddio enwau nac unrhyw fanylion a allai eich adnabod chi.

Fydd yr wybodaeth yn ddiogel?

Mae'r wybodaeth i gyd yn cael ei chadw mewn ystafell ddiogel ar gyfrifiadur. Does neb yn cael gweld yr wybodaeth oni bai mai dyna eu gwaith nhw.

Oes rhaid i mi gael fy nghynnwys?

Os nad ydych chi am i wybodaeth a allai adael i rywun wybod pwy ydych chi gael ei chynnwys yn PICANet, dywedwch wrth y nyrs neu'r doctor sy'n gofalu amdanoch. Cewch gysylltu â PICANet dros y ffôn neu drwy'r ebost os dymunwch (manyllion isod) ac fe wnawn ni'n siŵr fod eich gwybodaeth yn cael ei thynnu o'r gronfa ddata. Rydych yn rhydd i dynnu'n ôl unrhyw bryd a fydd unrhyw benderfyniad i dynnu'n ôl ddim yn newid y gofal gewch chi yn yr ysbyty yma nac mewn unrhyw ysbyty arall.

